

## **Gweithdrefn Gwyno Atsain**

Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod Cronfa Atsain fod yn deg ac effeithlon. Rhowch wybod i ni os nad ydym yn cyrraedd y safonau hyn.

Gallwch fynegi pryder ynghylch cais cyfredol am gyllid neu achos honedig o dorri telerau ac amodau ein grant.

**Ni allwch ddefnyddio'r weithdrefn gwyno i apelio yn erbyn ein penderfyniad am roi grant os ydym wedi dilyn ein proses o wneud penderfyniadau yn gywir. Ni allwn edrych ar eich cais eto, oni bai ein bod heb ddilyn ein gweithdrefnau cyhoeddedig ar gyfer asesu eich cais, neu eich bod yn gallu dangos ein bod wedi camddeall neu nad ydym wedi ystyried gwybodaeth berthnasol yn eich cais.**

Os ydych yn dymuno gwneud cwyn, cysylltwch â ni o fewn tri mis i'r weithred neu'r penderfyniad y mae'r gŵyn yn cyfeirio ato.

Anfonwch e-bost atom gyda'r wybodaeth ganlynol

- Cwyn am beth ydyw
- Pryd ddigwyddodd y mater
- Pwy oedd yn ymdrin â'r mater yn wreiddiol
- Beth hoffech ei weld yn digwydd i unioni'r sefyllfa

Byddwn yn cysylltu â chi cyn gynted â phosib i roi gwybod i chi sut y byddwn yn prosesu eich cwyn a'n nod yw ymateb i'ch cwyn o fewn deg diwrnod. Efallai y byddwn yn trefnu cyfarfod i drafod eich cwyn yn fanylach. Byddwn yn cysylltu â chi i roi gwybod i chi sut rydym yn bwriadu unioni pethau, a sut i atal sefyllfa debyg yn y dyfodol.

Os gwelwn fod cyfiawnhad dros eich cwyn am benderfyniad ariannu, byddwn yn cynnal cyfarfod panel arall gydag aelodaeth wahanol, dan gadeiryddiaeth Cadeirydd Anthem, er mwyn ailasesu eich cais. Ein nod fydd cynnal y cyfarfod panel hwn o fewn mis i dderbyn eich cwyn a byddwn yn rhoi gwybod i chi am y penderfyniad cyn gynted â phosib ar ôl hyn. Bydd penderfyniad yr ail banel yn derfynol.